Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwaith**
Dyddiad:	**21 o Fawrth 2022**
Pwnc / Testun:	**Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Deilydd(ion) Portffolio:	**Y Cynghorydd Llinos Medi**
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	**Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** **Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	**Emma Edwards** **01248 751887** **Emmaedwards@ynysmob.gov.uk**
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Rhoi trosolwg o'r cynnydd diweddar o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pwrpas yr adroddiad:

1. Amlygu gwelliannau o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
2. Amlygu gwelliannau o fewn y Gwasanaethau Oedolion

Argymhelliad

Cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor bod y cynnydd parhaus sy'n cael ei gyflawni gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac amserol.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Cynnig sicrwydd, eglurder a thryloywder bod yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau â'i siwrnai tuag at welliant.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amh.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?
Amh.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Drwy'r Gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Adolygiad parhaus o'r sefyllfa ariannol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Do, ceir enghreifftiau yn y diweddariad.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Do – proses Canmol a Chwyno, ymgynghoriadau ac ati.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Nodwyd.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amh.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amh.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	14/3/22 yw cadarnhau
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Fel yr uchod
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro	Fel yr uchod

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
	(gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amh.
5	Eiddo	Amh.
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	Amh.
7	Caffael	Amh.
8	Sgriwtini	Amh.
9	Aelodau Lleol	

F - Atodiadau:

Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:

Rydym yn parhau i gwrdd â'n Dyletswyddau Statudol ac wrth i ni ddod allan o'r pandemig rydym wedi sylwi ar rywfaint o anawsterau staffio gyda mwy o staff yn absennol oherwydd salwch, sydd yn broblem genedlaethol yn ôl pob golwg. Rydym yn parhau i weithio'n galed i ddiwallu anghenion plant Ynys Môn ac yn ceisio dod â staff ychwanegol i mewn i'n cynorthwyo yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Plant y Gofelir Amdanynt – rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant sydd yng ngofal y Cyngor o 160, sef y nifer uchaf yn ystod y 6 mis diwethaf, i 144 ac mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau h.y. plant wedi dychwelyd yn ôl i ofal eu rhieni, plant wedi gadael gofal gan eu bod bellach yn 18 oed ac yn derbyn gwasanaeth gadael gofal a rhai plant wedi cael eu mabwysiadu. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi golygu llawer iawn o waith i'n gweithwyr cymdeithasol a dylid diolch iddynt am y gwaith y maent wedi'i gyflawni i sicrhau cynlluniau cadarn.

Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol - mae'r panel wedi parhau i gwrdd, ac yn ystod y cyfarfod fis diwethaf cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o'r "pellter a deithiwyd" o 2017 hyd yma. Roedd y cyflwyniad nid yn unig yn dangos gwelliant o ran dangosyddion perfformiad, ond roedd hefyd yn dangos patrwm o welliannau parhaus. O ystyried nad oedd gan y gwasanaeth ddiwylliant o ddefnyddio data'n effeithiol yn ôl yn 2017, mae'r data hyn yma'n dangos darlun gwahanol iawn, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd i blant mwyaf bregus Ynys Môn, eu teuluoedd, uwch arweinwyr ac aelodau etholedig ein bod ni'n dal i ddiwallu eu hanghenion.

Dim Drws Anghywir
Amlygodd Comisiynydd Plant Cymru bod angen trawsnewid y modd y mae gwasanaethau'n cydweithio er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion sydd ddim ddigon difrifol i fod angen cymorth arbenigol ond sydd yn dioddef pryder emosiynol a/neu broblemau ymddygiad. Y nod yw cynhyrchu strategaeth a fydd yn galluogi partneriaid o'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru i gefnogi gwydnwch emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y categori hwn, ledled y rhanbarth. Bydd y strategaeth yn nodi sut y gall awdurdodau gydweithio gyda'i gilydd orau i ymateb i'r sbectrwm o

anghenion sydd gan blant a phobl ifanc sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Bydd yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol gan ddefnyddio modelau arfer da sydd ar waith yng Nghymru a thu hwnt.

Yng Ngogledd Cymru, dyma Ein Gweledigaeth:

Rydym am i blant a phobl ifanc Gogledd Cymru fod mor iach â phosibl yn feddyliol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy sicrhau bod y sefydliadau sydd ar gael i'w cynorthwyo mor hygyrch â phosibl, yn cydweithio, ac yn ceisio sicrhau canlyniadau cyn gyflymed â phosibl, yn seiliedig ar ddewisiadau'r plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Bydd y strategaeth yn cynnig dull ranbarthol yn seiliedig ar weledigaeth a rennir ac egwyddorion cyffredinol cytunedig a bydd yn weithredol ar hyd a lled Gogledd Cymru. Fodd bynnag, bydd yn cydnabod bod gwahaniaethau sylweddol yn bodoli ledled y rhanbarth yn cynnwys ffactorau diwylliannol, ieithyddol, dwysedd poblogaeth ac economaidd, ymysg pethau eraill. Bydd y model felly'n hyblyg a bydd modd ei deilwra yn unol ag amgylchiadau lleol. Bydd y Bwrdd Partneriaethau Lleol yn sicrhau cyfrifoldeb lleol dros weithredu'r egwyddorion hyn a'r system perfformiad. Cyfeirir at hyn fel Tynn – Llac – Tynn: glynu'n Dynn wrth yr egwyddorion a amlinellir yn y model gwasanaeth – gweithredu'r model gwasanaeth yn Llac (hyblyg) – sicrhau atebolrwydd a monitro perfformiad yn erbyn y strategaeth yn Dynn.

Nod y strategaeth yw cael asiantaethau partner i gydweithio mewn gwasanaeth sy'n eu galluogi i weithio ar y cyd a lleihau a rheoli risg. Mae'n bwysig bod yr holl asiantaethau partner yn cytuno i fabwysiadu'r egwyddorion cyffredinol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y cytundeb partneriaeth penodol.

- Gwerthfawrogi plant a phobl ifanc fel unigolion.

- Gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddeall eu byd a'u profiadau. Bydd eu barn yn ein helpu i lywio a gwerthuso ein gwasanaethau.

- Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth wedi'i dargedu drwy fuddsoddi mewn mesurau ataliol.

- Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth dwys drwy ymyrryd yn gynnar, ar yr adeg gywir.

- Ei gwneud hi'n haws i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ddod o hyd i wybodaeth ynglŷn ag iechyd meddwl ac, os oes raid, eu helpu i gael help drwy drefniadau syml a chyfleus.

- Gwella'r cymorth iechyd meddwl sydd ar gael mewn ysgolion.

- Ni ddylai plant gael eu cau allan o wasanaethau oherwydd eu hamgylchiadau teuluol.

- Mynediad cydlynol at help ar y cyd gan bob math o weithwyr proffesiynol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, pan fo hynny o fudd iddynt.

- Rhoi cyfle i blant a phobl ifanc feithrin perthynas gyda gweithwyr proffesiynol priodol y gallent ymddiried ynddynt. Byddant hwy, a'u teuluoedd, yn cael eu cynorthwyo gan gydlynydd a fydd yn rheoli eu hachos a'u harwain yn rhwydd drwy'r system.

- Ymyrryd ar yr adeg gywir yn seiliedig ar anghenion nid diagnosis ac osgoi rhestrau aros maith. Bydd gwasanaethau'n canolbwyntio ar y plentyn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hyblyg fel eu bod yn diwallu anghenion y plentyn ac yn cael eu darparu mewn ffyrdd addas a chyfleus, yn cynnwys gwasanaethu ar-lein.

- Llwybr sy'n gweithredu'n rhwydd rhwng y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg, darpariaethau cymunedol a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol.

- Sefydlu system effeithiol ar gyfer llywodraethu adnoddau a gweithgareddau proffesiynol.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Bydd yr Is-grŵp Plant yn monitro gweithrediad.

Ynys sy'n Ystyried Trawma – byddwn yn parhau ar y daith i ddod yn Ynys sy'n Ystyried Trawma ac mae nifer o ysgolion ar Ynys Môn eisoes wedi derbyn yr hyfforddiant yn ogystal â staff o'r adran Plant a Theuluoedd, Swyddogion Adolygu Annibynnol a Gofalwyr Maeth.

Mae'r hyfforddiant yn rhoi mewnwelediad allweddol i'r seicoleg a'r niwrowyddoniaeth y tu ôl i afiechyd meddwl ac ymddygiad heriol ochr yn ochr ag arfau a thechnegau i ymateb i naratif y plentyn yn dilyn digwyddiadau bywyd trallodus. Yn aml iawn mae hyn yn ddigon i roi terfyn ar flynyddoedd o ddioddefaint a blynyddoedd o droi profiadau trallodus yn broblemau meddygol gan ddefnyddio labeli seiciatrig a meddyginiaeth. Bydd cynrychiolwyr hefyd yn cael eu hyfforddi i wybod pryd i gael goruchwyliaeth dan arweiniad seicolegydd, a phryd y dylid cyfeirio achosion os ydynt y tu hwnt i'w cymhwysedd. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant unigol yn ogystal â newid diwylliant ysgolion cyfan er lles pawb. Nod yr hyfforddiant yw,

• Cyd-ddeall plant mewn ffyrdd sy'n lleddfu eu dioddefaint, yn cefnogi eu dysgu, ac yn gwneud iddynt deimlo bod rhywrai'n gofalu amdanynt ac yn eu gwerthfawrogi

• Gwybod sut i ymateb i blant sydd mewn cyflwr o ofid/straen, a hynny mewn ffyrdd a fydd yn eu helpu i reoli eu hemosiynau, teimlo'n ddiogel yn seicolegol, a datblygu'r gallu i ddelio'n dda â straen dros amser
• Cyd-ddeall plant mewn ffyrdd sy'n gwella eu hunan-barch, eu hyder, a'u teimladau o ddiogelwch seicolegol
• Gwybod sut i wrando ac uniaethu pan fydd ar y plant eisiau siarad am faterion poenus, a'u helpu i fyfyrio arnynt a'u datrys
• Meithrin dealltwriaeth ddofn o sut beth yw byw â phroblem iechyd meddwl penodol ar gyfer plentyn neu arddegwr, a theimlo'n gyfforddus o ran cynnig empathi cywir, dealltwriaeth, a seicoaddysg allweddol
• Meithrin dealltwriaeth ddofn o effaith hirdymor profiadau niweidiol penodol yn ystod plentyndod, a sut i alluogi'r plentyn neu'r arddegwr i weithio trwy ei deimladau o ddicter a cholled trawmatig.
• Defnyddio strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar (dangosyddion cynnar o ran anawsterau iechyd meddwl), gwybod beth yw terfynau eu cymhwysedd, ac atgyfeirio at asiantaethau eraill, pan fo'r rhain ar gael.
• Teimlo'n fwy hyderus wrth wahaniaethu rhwng trawma datblygiadol a diagnosis posib o gyflyrau fel ASD, ADHD a FAS a herio diagnosis anghywir
• Gweithio i gynyddu'r ffactorau amddiffynnol a'r 'arwyddion diogelwch' yn niwylliant yr ysgol, er mwyn atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod rhag datblygu'n broblemau iechyd meddwl, corfforol a chymdeithasol hirdymor
• Galluogi'r staff i feddwl yn seicolegol am y disgyblion a chynnig ymatebion empathig, fel y bo'n briodol
• Cefnogi staff i gyd-ddeall plant mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i symud oddi wrth ymddiriedaeth wedi'i rhwystro, i ymddiriedaeth
• Addysgu staff i ddeall pryd y mae ymddygiad heriol a phyliau ffrwydrol yn debygol o fod yn sbardunau trawma, a sut i bwyllo plant
• Defnyddio iaith hygyrch, a chynorthwyo staff gyda gwyddor yr ymennydd a'r ymchwil seicolegol i broblemau iechyd meddwl plant, a'u heffaith ar ansawdd bywyd a dysgu
• Addysgu staff am yr hyn sydd ei angen ar blant o ran eu perthnasoedd ag oedolion, er mwyn iddynt beidio â chael diagnosis anghywir, gofid, neu drawma ychwanegol yn amgylchedd yr ysgol
• Cynorthwyo staff mewn ffyrdd sy'n eu hatal rhag dioddef lefelau uchel o straen, datblygu trawma eilaidd, a gadael y proffesiwn o ganlyniad.

Trefnir rhagor o hyfforddiant, yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2022.

Diweddariad Gwasanaethau Oedolion:

Er bod y pandemig Covid-19 wedi bod yn rhwystr i rai gweithgarddau mae hefyd wedi amlygu cyfleoedd dysgu a datblygu sy'n cefnogi gweledigaeth gwasanaeth integreiddiedig. Mae partneriaethau effeithiol gyda Thai a'r 3ydd Sector wedi bod yn effeithiol ac rydym yn gobeithio ymestyn y berthynas wrth ddatblygu adnoddau newydd gan gynnwys Tai Gofal Ychwanegol. Yn ystod y cyfnod rydym wedi cryfhau mynediad rhithiol i gyfleoedd dydd a mynediad at

dechnoleg gael effaith gadarnhaol ar unigolion gan leihau ynysu cymdeithasol a bydd yn bwyisg parhau gyda gweithareddau llwyddinanus.

Tim Adnoddau Cymunedol
Mae ymarfer y 3 Thîm Adnoddau Cymunedol yn cael ei yrru gan Grŵp Llywio Partneriaethol yn elfen annatod o ddarparu gwasanaethau integreiddiedig a chyflwyno ffyrdd arloesol o weithio Wrth i fwy o bobl dychweldy i'r gwaiht rydym yn gobeithio bydd perthynas yn aeddfedu. Mae gwerthusiad opsiynau ar gyfer model o Un Pwynt Mynediad wedi gwblhau gyda bwriad o symud at un pwynt mynediad at y dyfodol**.**

Cronfeydd Ariannol
Mae cyllid y Gronfa Adfer a'r Gronfa Gofal Integtreiddiedig wedi defnyddio i gefnogi mentrau newydd ar gyfer cefnogi defnyddwyr a chynnig seibiant gydag cynlluniau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer seibiant Dementia ac Anabledd Dysgu yn mynd rhagddo .

WCCIS
Mae system'r WCCIS integredig yn weithredol er bod nifer o anhawsterau wedi amlygu a bod y broses o drosglwyddo yn boenus a llafurus mae sefyllfa wedi sefydlogi. Y gobaith yw y bydd yn hwyluso ymhellach trefniadau cyd-weithio ac yn helpu profiad a siwrna defnydwyr gwasanaeth.

Hyfforddiant
Mae rhaglen hyfforddi i gefnogi arfer gweithredol yn parhau ac anghenion hyfforddi staff wedi'i hadnabod o fewn y cynllun hyfforddiant a sesiynau goruchwylio yn cefnogi newid diwylliant. Roedd nifer staff oedd yn cwblhau hyfforddiant mandadol yn anodd i'r Adran ond yn ystod y cyfnod diweddar bu cynnydd da gan ein symud yn nes at y trothwyon disgwyliedig.

Capasiti Staffio
Mae recriwtio a chadw staff wedi bod yn heriol yn enwedig staff gofal cartref a phreswyl. Rydym wedi cynnal a chyfrannau at ymgrychoedd cenedlaethol a lleol i geisio dennu staff a chefnogi cynaliadwyedd y farchnad gofal lleol. Er bod sefyllfa yn parhau yn heriol mae'r sefyllfa o ran gweithwyr cymdeithasol a therapyddion yn fwy sefydlog a'r defnydd o weithwyr asiantaeth wedi lleihau.

Rheoli Perffromiad
Rydym wedi adolygu gwybodaeth sy'n cael ei gasglu ac yn adolygu perfformiad yn rheolaidd yn cyfarfodydd tim er mwyn sichrau bod data yn gywir yn gadarn ac yn amserol.

Adolygiadau Allannol
Roedd Adroddiad Gwiriad Sicrwydd AGC Gorffennaf 2021 yn cadarnhau gwelliant mewn arfer gweithredol ac rydym wedi derbyn atborth cadarnhaol yn dilyn cyfarfod blynyddol gyda Arolygwyr Cyngor Safonnau Gofal. Serch hyn rydym wedi adnabod yr angen i barhau i gynnal archwiliadau ffeiliau i sichau cydymfufrfiad.

Trawsnewid
Fel rhan o rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu rydym wedi comisiynnu People Too i adolygu trefniadau i Tai a Chefnoggaeth a bydd adroddiad a cynllun waith yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

Gwarchod Hawliau a Lles Meddyliol
Mae dogfennaeth Galluedd Meddyliol a Lles Gorau bellach wedi'u prif ffrydio ac mae ymdrech ar droed i ymrafael a rhestr aros o'r achosion oedd yn disgwyl asesiad.

Ff – Papurau Cefndir **(cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**